



Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 10FED RHAGFYR, 2018**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor,  
Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**[lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru](mailto:lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 30 Tachwedd 2018)

# **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

## **AELODAETH (15)**

### **Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr

Steve Collings  
Dafydd Owen  
Peter Read  
Sedd Wag - Plaid Cymru x 2

Annwen Hughes  
Edgar Wyn Owen  
Elfed Williams

### **Annibynnol (4)**

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes  
Jason Wayne Parry

Eryl Jones-Williams  
Angela Russell

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Gareth Williams

### **Aelod Unigol (2)**

Y Cynghorydd  
Sion W. Jones

Sedd Wag - Aelod Unigol

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10 Medi 2018 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

6 - 11

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinoll a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

- a) 10.09.2018
- b) 17.10.2018

## 6. ADOLYGU TREFNIADAU PROFION MECANYDDOL CERBYDAU TACSI

12 - 13

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Adran yr Amgylchedd

## 7. HYSBYSU'R PWYLLGOR O'R CAMAU NESAF AR GYFER PARATOI POLISI TRWYDDEDU TACSI UNEDOL NEWYDD

Pwrpas – hysbysu'r Aelodau, ar lafar, o'r bwriad i sefydlu grwp tasg o aelodau i edrych ar brif agweddau y Polisi Unedig Trwyddedu Tacsî drafft ; cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus – ac i sefydlu cylch gorchwyl ar gyfer y grwp.

# Eitem 4

---

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 10.09.18

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Steve Collings, Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Jason Wayne Parry, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Sïon Jones, Rheinallt Puw ac Annwen Daniels

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 o Fehefin 2018 fel rhai cywir.

### 5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 22.05.2018, 17.07.2018 a 24.07.2018

### 6. FFIODD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn adrodd ar yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â chodi ffioedd trwyddedau tacsis er mwyn sicrhau bod costau ynghlwm a gweinyddiaeth trwyddedau yn cael eu hadennill yn llawn. Atgoffwyd yr Aelodau bod Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth

Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn amlygu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol; byddai'r cynnydd ar gyfartaledd o 28%.

Adroddwyd bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben ar y 30ain o Awst a chadarnhawyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad neu sylwadau ysgrifenedig wedi dod i law. Amlygwyd bod un cwmni lleol wedi crybwyll mewn e-bost y byddai yn syniad adolygu'r prisiau mae'r diwydiant yn gallu ei godi ar gwsmeriaid. Derbyniwyd y sylw hwn gan nad oedd cais am adolygiad wedi ei wneud ers blynnyddoedd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod llawer o waith wedi ei wneud i gyfarch a gwarchod y diwydiant yn y gorffennol
- Bod cais am drwydded tair blynedd yn rhatach yn y pendraw na thrwydded blwyddyn a bod yr arbediad yn sylweddol

Mewn ymateb i sylw bod awgrym wedi ei wneud i adolygu ffioedd cwsmeriaid, nodwyd bod rhaid cael cais ysgrifenedig gan gynrychiolydd o'r diwydiant er mwyn cychwyn y broses yn ffurfiol. Ategwyd y byddai'r swyddogion yn annog y diwydiant i gyflwyno llythyr.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thrafodaethau briffio gyda'r Aelodau Cabinet, ynglŷn â'r mater, adroddwyd bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r Aelod Cabinet a bod yr Aelod Cabinet yn ymwybodol mai adennill costau yw'r egwyddor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag adolygu a chysoni rheoliadau ar draws Gwynedd, nodwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried wrth adolygu Polisiâu Tacsï Cyngor Gwynedd

**PENDERFYNWYD cymeradwyo yn derfynol y cynnig i godi'r ffioedd, yn weithredol o'r 1af o Hydref 2018, i'r lefel a argymhellir; yn unol â'r drefn a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:15am

---

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 10.09.2018

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Jason W Parry a Dafydd Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Rhian Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

### 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fgythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a hefyd ei amgylchiadau personol. Nododd bod ganddo brofiad o yrru car ar gyfer gwaith ond bod hynny gyda'r nos. Amlygodd bod cwmni lleol wedi cynnig swydd iddo petai ei gais yn llwyddiannus.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau.

Rhoddyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd rybudd ffurfiol gan Heddlu Gogledd Cymru (Chwefror 2015) ar ddau gyhuddiad yn ymwneud a meddiant cyffuriau yn groes i adran 5 (2) o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Gwynedd (Ionawr 2016) ar ddau gyhuddiad o fod mewn meddiant nwyddau gyda nod masnach ffug er mwyn eu gwerthu neu hurio yn groes i adran 92 (1)(c) o'r Ddeddf Nodau Masnach 1994. Cafodd orchymyn cymunedol 12 mis ynghyd a gorchymyn i dalu costau, gwaith di-dâl a gordal dioddefwr.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 8 o'r Polisi yn nodi y bydd cais fel rheol yn cael ei wrthod os oes collfarn sydd yn llai na 3 mlynedd am drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd.

Mae paragraff 9.4 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes rhybudd unigol am drosedd yn gysylltiedig â bod mewn meddiant a chyffuriau o fewn y 3 blynedd diwethaf. Nodwyd hefyd y dylid ystyried natur y cyffuriau dan sylw.

Mae paragraff 17 o'r Polisi yn nodi y byddai'n annhebygol rhoi trwydded i ymgeisydd os oes ganddo gollfarn am drosedd oni bai bod cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiweddaraf

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y rhybudd o 2015 yn ymwneud a chyffuriau, ond gyda'r drosedd wedi digwydd 3 blynedd a 7 mis yn ôl, ac felly tu hwnt i'r cyfnod tair blynedd. Nid oedd felly yn sail i wrthod y drwydded.

Wrth ystyried collfarn 2016 roedd yr Is bwyllgor angen gweld os oedd y gollfarn yn disgyn o dan ddarpariaethau anonestrwydd y Polisi. Yn dilyn cyngor cyfreithiol amlygwyd nad oedd angen profi anonestrwydd o adran 92 (1)(c) o Ddeddf Nodau Masnach 1994. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd y gwaharddiad o dan ran 8 o'r Polisi yn berthnasol i'r gollfarn yma. Ystyriwyd y ddarpariaeth gyffredinol o dan ran 17 o'r Polisi, ond gan fod y gollfarn mewn perthynas â throsedd oedd wedi digwydd dros 3 blynedd yn ôl, nid oedd yn sail i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor yn diolch i'r ymgeisydd am fod yn agored a gonest yn ei eglurhad i amgylchiadau'r collfarnau.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd a bod hawl ganddo i gyflwyno apel yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor o fewn cyfnod o 21 diwrnod o dderbyn y llythyr.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00pm a daeth i ben am 13:25pm



---

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 17.10.2018

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Stephen Collings a Gareth Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Rhian Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwysu'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

### 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y drosedd a hefyd ei amgylchiadau personol. Nododd Mr A bod ei ymddygiad allan o gymeriad ac nad oedd yn berson treisgar. Roedd yn edifar am yr hyn a ddigwyddodd a'i fod wedi cael ei gythruddo ers peth amser gan y dioddefwr. Ategodd bod ganddo gwmni tacsis o safon, ei fod yn cyflogi gywrwr lleol a'i flaenoriaeth yw cadw'r busnes.

Dangoswyd y fideo i'r Is Bwyllgor a'r Cyfreithiwr gyda'r ymgeisydd yn egluro'r digwyddiad.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, dogfennau, lluniau a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- llythyrau geirda a dderbyniwyd yn cefnogi cais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau.

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd rybudd ffurfiol gan Heddlu Gogledd Cymru (Mai 2018) ar gyhuddiad o ymosod ar berson yn groes i adran 39 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 2.3 o'r Polisi lle cyfeirir at rybuddion ffurfiol.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais a pharagraff 6.2 yn nodi y bydd cais lle mae ymgeisydd wedi ei gael yn euog o drosedd yn ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes ei fod yn rhydd rhag collfarn o'r fath am 3 blynedd o leiaf.

Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried (gan gynnwys rhybuddion) am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y rhybudd o 2018 yn ymwneud a throsedd o drais. Nodwyd bod y rhybudd wedi digwydd llai na 6 mis yn ôl ac felly o fewn 3 blynedd. Yn unol â pharagraff 6.5 o'r Polisi, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu roedd yr ystyriaethau cychwynnol o blaid gwrthod y cais. Er hynny, roedd yr Is Bwyllgor hefyd yn ymwybodol mai canllaw yw'r Polisi a bod modd gwyro oddi wrtho os oes cyfiawnhad dros wneud hynny.

Penderfynodd yr Is Bwyllgor bod amgylchiadau'r cais yn cyfiawnhau gwyro am y rhesymau canlynol:

- Bod yr ymgeisydd wedi dangos edifeirwch dros yr ymosodiad

- Roedd y digwyddiad allan o gymeriad ac amlygwyd hyn yn y nifer o dystlythyrau a dderbyniwyd yn cefnogi cais yr ymgeisydd
- Nad oedd cofnod o unrhyw gollfarn na rhybudd yn erbyn yr ymgeisydd fel y nodwyd ar y cofnod DBS
- Bod yr ymgeisydd eisoes dan rybudd gan yr Heddlu ac felly'n yn ymwybodol i beidio â thorri'r gyfraith eto
- Nad oedd yr ymosodiad yn un o drais yn erbyn y cyhoedd ond yn hytrach yn erbyn cystadleuwr arall yn y diwydiant tacsï
- Nad oedd dioddefwr yr ymosodiad yn ddiniwed. Cafodd yr ymosodiad ei bryfocio mewn lleoliad o dan oruchwyliaeth TCC
- Roedd yr ymosodiad wedi codi yng nghyd-destun ymgyrch hir o aflonyddu a phryfocio gan ddioddefwr yr ymosodiad
- Cafwyd esboniad gonest pam nad oedd yr ymgeisydd heb apelio penderfyniad (11.05.18) i ddiddymu ei drwydded - roedd yn mynd drwy gyfnod anodd, personol oedd yn ymwneud ac iechyd ei fab.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:15pm a daeth i ben am 15:25pm

# Eitem 6

<b>PWYLLGOR</b>	<b>PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>10 RHAGFYR 2018</b>
<b>TEITL:</b>	<b>ADOLYGU TREFNIADAU PROFION MECANYDDOL CERBYDAU TACSI</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>CYMERADWYO TREFN NEWYDD O BROFI CERBYDAU DROS 10 OED O EBRILL 2019</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD</b>

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

Mae yn ofynnol i bob cerbyd hacni a hurio preifat dderbyn prawf MOT safonol yn flynyddol. Mae'n amodol hefyd fod pob cerbyd yn derbyn prawf mecanyddol y cyngor cyn cyflwyno cais am drwydded ar gyfer y cerbyd. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i'r cerbyd gael prawf mecanyddol (prawf y Cyngor) un waith yn ystod y flwyddyn y trwyddedir y cerbyd. Mae amodau trwyddedau cerbydau hefyd yn gorfodi dau brawf mecanyddol yn ystod y flwyddyn unwaith mae cerbyd yn cyrraedd 10 oed. Mae'r profion hyn yn allweddol i sicrhau diogelwch y cerbydau tacsï.

- 1.1 Mae'r gofynion hyn wedi eu hymgorffori fel amodau trwydded, ac wedi eu mabwysiadu ym mholisi trwyddedu cerbydau tacsï'r Cyngor. Mae'r gofynion hefyd yn seiliedig ar y cyngor a geir yng nghanllawiau ymarfer da'r Weinyddiaeth Drafnidiaeth.
- 1.2 Mae perchnogion y cerbydau yn gyfrifol am dalu a threfnu'r profion mecanyddol eu hunain, ac mae copi o'r ffurflen archwilio yn cael ei gyrru i'r Uned Drwyddedu unwaith mae'r prawf wedi ei gynnal.
- 1.3 Yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 25 o Fehefin 2012 fe gytunodd yr aelodau i alluogi modurdai cymwys drwy Wynedd i gofrestru diddordeb i gynnal y profion hyn ar gyfer y diwydiant tacsï. Cyn hyn, roedd tri modurdy dynodedig drwy'r sir (gan gynnwys Modurdy'r Cyngor yn Nolgellau) gyda chaniatâd i gynnal profion ar gerbydau tacsï. Roedd perchnogion cerbydau yn ei chael yn anodd cael apwyntiadau archwilio ar gyfer eu cerbydau gyda dim ond tri modurdy; felly penderfynwyd rhoi cynnig i fwy o fodurdai cymwys drwy'r Sir i gofrestru diddordeb i gynnal y gwasanaeth.
- 1.4 Erbyn hyn mae 16 modurdy wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwneud y profion. Mae'r diwydiant wedi croesawu'r hyblygrwydd a'r dewis mae hyn wedi ei ganiatáu.
- 1.5 Mae pob Modurdy sydd wedi ei awdurdodi yn gymwys i wneud profion MOT, ac felly yn gweithredu yn unol â safonau cenedlaethol statudol. Mae'r nifer o brofion mecanyddol sydd eu hangen dros y 12 mis nesaf ar gerbydau fel a ganlyn ar hyn o bryd -

<b>Ardal</b>	<b>Nifer profion mecanyddol sydd eu hangen hyd Rhagfyr 2019</b>
Arfon	270
Dwyfor	91
Meirionnydd	63

## 2. RHESYMAU DROS ADOLYGU'R DREFN

- 2.1 Fe fu i'r Pwyllgor hwn yn 2012 gymeradwyo hyblygrwydd i ganiatáu rhai ceisiadau am drwydded am y tro cyntaf i gerbydau oedd yn hyn na'r oedran sydd yn cael ei nodi yn y

polisi. Fe gymerwyd y cam yma fel adwaith i'r sefyllfa economaidd; yn seiliedig ar y ddadl mai cyflwr mecanyddol a diogelwch cerbyd sydd yn allweddol i sicrhau diogelwch y cyhoedd; yn hytrach nag oedran cerbyd yn ei hun.

2.2 Fel canlyniad i hyn ; mae angen adolygiad parhaus o'n trefniadau profi cerbydau er mwyn sicrhau fod cerbydau yn derbyn y gwiriadau sydd eu hangen ; a bod safon y profion yn parhau yn uchel, gyda cysondeb rhwng y modurdai.

2.3 Yn ddiweddar, mae cynnydd bychan wedi bod yn y nifer o gwynion a dderbynnir am gyflwr cerbydau; ac mae swyddogion ar rhai achlysuron wedi defnyddio eu pwerau gorfodaeth yn ystod archwiliadau ar hap i gyfeirio cerbydau i gael prawf mecanyddol ychwanegol oherwydd pryderon penodol am gyflwr cerbyd.

2.4 Mae nifer o Gynghorau oherwydd pryderon dros reoli safon a chysondeb profion mecanyddol yn awdurdodi modurdai sydd yn gwasanaethu fflyd cerbydau'r Awdurdod i wneud y profion mecanyddol ar gerbydau trwyddedig. Adroddir fod hyn yn fanteisiol oherwydd bod yn bosib cadw rheolaeth dynn ar y safonau a hefyd fod cyfle creu incwm i'r Cyngor .

### 3. TRAFODAETHAU GYDA RHEOLWR MODURDAI'R CYNGOR

3.1 Mae 3 modurdy o dan berchnogaeth y Cyngor sydd yn cynnal a chadw fflyd cerbydau'r Cyngor ar draws y Sir. Mae'r modurdy yn Nolgellau eisoes yn cynnig gwasanaeth profion mecanyddol i gerbydau tacsï gan nad oes llawer o ddi-ddordeb wedi bod yn yr ardal gan fodurdai preifat

3.2 Yn dilyn asesiad o lwyth gwaith a chapasiti modurdai'r Cyngor - mae'r canlynol wedi ei gynnig -

- Fod ceir dros 10 oed sydd angen dau brawf mecanyddol y flwyddyn yn cael eu cyfeirio at fodurdai'r cyngor yng Nghibyn, Pwllheli a Dolgellau i gael y profion.
- Fod 3 modurdy arall yn cael eu hawdurdodi fel modurdai 'wrth gefn' yn ystod cyfnodau lle mae modurdai'r Cyngor yn rhy brysur i wneud y profion
- Fod trefn yn cael ei sefydlu i alluogi perchnogion cerbydau i allu gwneud trefniant a thalu i gael profi cerbyd yn modurdai'r Cyngor drwy ffurflen electronig hunanwasanaeth
- Fod trafodaeth yn digwydd gyda chanolfan profi cerbydau'r Post Brenhinol yn Llandygai er mwyn ceisio darganfod os fyddai diddordeb ganddynt i gynnig gwasanaeth profi cerbydau tacsï.
- Fod Modurdai'r cyngor yn parhau i dderbyn ceir i'w profi yn achlysurol sydd yn cael eu cyfeirio ar hap gan swyddog gorfodaeth Trwyddedu yn unol â phwerau archwilio o dan adran 68 y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; beth bynnag fo oedran y cerbyd.
- Fod bwriad i'r trefniant fod yn weithredol o Ebrill 2019 os fydd y Pwyllgor yn cymeradwyo.
- Fod cerbydau o dan 10 oed yn parhau i gael eu profi yn unol â'r trefniant presennol

### ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r trefniant a argymhellir yng nghymal 3.2 uchod.